OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1910 (Cy.153)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Gorffennaf 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *14 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 21(3) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996(**2**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 14 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddir i "*school teacher*" yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw —

(a) o ran ysgol a gynhelir â chyllideb ddirprwyedig, corff llywodraethu'r ysgol, a

(b) o ran ysgol a gynhelir heb gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol;

ystyr "y Ddogfen" ("*the Document*") yw'r ddogfen sy'n cynnwys darpariaethau o ran amodau statudol cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr (Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, sydd mewn grym o dro i dro) a'r canllawiau sydd gyda hwy a baratowyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, fel y maent yn effeithiol ar y dyddiad y mae'r corff perthnasol yn cyflawni ei adolygiad yn unol â'r Rheoliadau hyn(**4**);

---

(**1**) 2002 p.32; i gael ystyr "regulations" *gweler* adran 212(1).
(**2**) 1996 p.56.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**4**) Y Ddogfen sydd yn effeithiol ar y dyddiad y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud yw'r un a gyhoeddir gan The Stationery Office Limited (ISBN 0-11-2711-634) ac sy'n dwyn y teitl "School Teachers' Pay and Conditions Document 2004 and Guidance on School Teachers' Pay and Conditions" sydd yn effeithiol yn unol â Gorchymyn Addysg (Cyflog ac Amodau Athrawon

ystyr "staff cymorth" ("*support staff*") yw unrhyw aelod staff ysgol heblaw athro neu athrawes ysgol;

ystyr "strwythur staffio" ("*staffing structure*") yw'r trefniadau ar gyfer rheoli a lleoli'r holl staff yn yr ysgol;

mae i "uned cyfeirio disgyblion" yr ystyr a roddir i "*pupil referral unit*" yn adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996;

mae i "ysgol a gynhelir" yr ystyr a roddir i "*maintained school*" yn adran 39(1) o Deddf Addysg 2002.

**Dyletswydd corff perthnasol i adolygu strwythur staffio ysgol**

**3.**—(1) Rhaid i'r corff perthnasol adolygu strwythur staffio'r ysgol yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r corff perthnasol gynnal yr adolygiad er mwyn sicrhau bod —

(a) rheoli a lleoli'r holl staff, a

(b) dyraniad cyfrifoldebau a dyletswyddau i'r holl staff,

yn defnyddio'i adnoddau yn effeithiol.

(3) Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r corff perthnasol ystyried —

(a) o ran athrawon ysgol, y trefniadau cyflog ac amodau cyflogaeth athrawon a nodir yn y Ddogfen, a

(b) o ran staff cymorth, y goblygiadau ar gyfer eu graddio a'u talu.

(4) Wrth gynnal yr adolygiad, rhaid i'r corff perthnasol ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y pennaeth yn unol â rheoliad 4 isod.

(5) Yn ystod y cyfnod y cynhelir yr adolygiad rhaid i'r corff perthnasol ymghynghori â'r canlynol —

(a) yr holl staff;

(b) cynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig; ac

(c) personau eraill y mae'r corff perthnasol yn barnu sy'n briodol.

(6) Cyn neu ar 31 Mawrth 2006 rhaid i'r corff perthnasol —

(a) penderfynu ei adolygiad o'r strwythur staffio, a

(b) paratoi cynllun ("cynllun gweithredu") sy'n dangos sut y mae'n bwriadu gweithredu unrhyw newidiadau i'r strwythur staffio.

(7) Rhaid i gynllun gweithredu gynnwys —

(a) amserlen ar gyfer gweithredu, a

(b) y dyddiad erbyn pryd y bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur staffio wedi cael eu gweithredu'n llawn, ac ni fydd y dyddiad hwnnw'n hwyrach na 31 Rhagfyr 2008.

(8) Os y corff llywodraethu yw'r corff perthnasol, mae'r ddyletswydd i adolygu strwythur staffio'r ysgol heb ragfarnu egwyddorion cyffredinol a rolau a chyfrifoldebau'r cyrff llywodraethu a'r penaethiaid yn eu trefn a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000(**5**).

Ysgol) (Rhif 2) 2004 (O.S. 2004/2142 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/539 a 2005/1101) a wnaed o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002.

(**5**) O.S. 2000/3027 (Cy.195) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1396 (Cy.138).

### Dyletswydd y pennaeth i gynghori cyrff perthnasol

**4.** Rhaid i'r pennaeth gynghori a chynorthwyo'r corff perthnasol ynglŷn â'i adolygiad o'r strwythur staffio o dan reoliad 3.

### Dyletswydd corff perthnasol o ran rheoli'r pennaeth

**5.** Wrth reoli'r pennaeth, rhaid i'r corff perthnasol roi sylw i'r dymunoldeb bod y pennaeth yn gallu cael cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser y mae ei angen arno i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol a'r amser y mae ei angen arno i ddilyn ei ddiddordebau personol y tu allan i'r gwaith.

### Dyletswydd awdurdod addysg lleol o ran unedau cyfeirio disgyblion

**6.** Mae paragraffau (1) i (7) o reoliad 3, a rheoliadau 4 a 5 yn gymwys o ran unedau cyfeirio disgyblion gan roi yn lle'r cyfeiriadau at y corff perthnasol cyfeiriadau at yr awdurdod addysg lleol sy'n sefydlu ac yn cynnal yr uned cyfeirio disgyblion.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
12 Gorffennaf 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sydd â chyllideb ddirprwyedig, ac ar awdurdod addysg lleol o ran ysgol sydd heb gyllideb ddirprwyedig neu uned cyfeirio disgyblion, i adolygu'r trefniadau staffio yn yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion. Diben yr adolygiad yw sicrhau bod rheoli a lleoli'r holl staff yn yr ysgol (neu'r uned cyfeirio disgyblion) a dyrannu cyfrifoldebau iddynt yn defnyddio adnoddau'n effeithiol. Wrth gynnal yr adolygiad rhaid i'r corff llywodraethu neu'r AALl ystyried y trefniadau cyflog ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol a nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau, a hefyd y goblygiadau ar gyfer graddio a thaliadau i staff cymorth. Rhaid penderfynu ar yr adolygiad a pharatoi cynllun gweithredu ar neu cyn 31 Mawrth 2006.

Nid yw'r ddyletswydd sydd ar gyrff llywodraethu i gynnal adolygiad o strwythur staffio yn effeithio ar yr egwyddorion cyffredinol a rolau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu a phenaethiaid yn eu trefn a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gosod dyletswydd ar yr un cyrff i roi sylw i'r angen fod y pennaeth, neu'r athro neu'r athrawes â gofal yn achos uned cyfeirio disgyblion, yn mwynhau cydbwysedd rhesymol mewn gwaith a bywyd.